

CYFRINACHOL

Ein Cyfeirnod: 20180515

Bethan Sayed, AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mai 2018

Annwyl Bethan

Gwasanaeth optio allan Newyddion BBC Radio i Gymru

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 4 Mai ynglŷn â thystiolaeth diweddar y BBC i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, am ymarferoldeb darparu gwasanaeth optio allan i Gymru ar wasanaethau FM Radio 1 a 2. Fe ofynnodd Sharon White i fi ymateb gan nad yw hi yn y swyddfa.

Nid oes gan Ofcom wybodaeth am y cyfyngiadau technegol a gweithredol ar rwydweithiau'r BBC. Mae hyn yn golygu taw'r BBC sy'n gallu darparu sylwadau manwl am ymarferoldeb technegol darparu gwasanaeth optio allan i Gymru ar ei wasanaethau FM.

Prif rôl Ofcom yw i drwyddedu holl wasanaethau'r BBC yn y DU sy'n cynnwys darparu manylion y mastiau trosglwyddo a'r lefelau pŵer y caiff gwasanaethau radio y BBC eu defnyddio. Hefyd, mae Ofcom yn dyrannu a chydlynu'r sbectrwm radio sy'n cael ei ddefnyddio gan wasanaethau radio'r BBC a gwasanaethau radio masnachol.

Prif drosglwyddydd FM y BBC ar gyfer de a de orllewin Cymru yw prif fast Gwenfô ger Caerdydd. Fel y dywed y BBC, mae'r trosglwyddydd hwn hefyd yn gwasanaethu sawl ardal yn ne orllewin Lloegr. Nid oes gan y rhan fwyaf o wrandawyr yn yr ardaloedd hyn fynediad i signalau FM eraill gan y BBC o drosglwyddyddion yn Lloegr. Felly, petai mast Gwenfô yn cludo gwasanaeth optio allan i Gymru, byddai gwasanaethau Cymreig hefyd yn cael eu derbyn gan wrandawyr Gwenfô yn yr ardaloedd hyn yn Lloegr.

Dull posib arall fyddai sefydlu trosglwyddiadau ychwanegol ym mast Gwenfô a fyddai'n cludo fersiynau Saesneg o Radio 1 a 2. Ond mae defnydd trwm iawn yn cael ei wneud eisoes o'r band amledd FM, a does dim amleddau addas ar gael ar gyfer y trosglwyddiadau pŵer-uchel ychwanegol a fyddai'n ofynnol i wasanaethu'r ardaloedd hynny yn Lloegr sy'n derbyn signalau ar hyn o bryd o Wenfô.

Y BBC fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu data darpariaeth manwl o ran poblogaeth a daearyddiaeth i'ch pwyllgor ar gyfer eu gwasanaethau FM eu hunain. Ond, rwyf wedi atodi map darpariaeth cyhoeddus ar gyfer trosglwyddydd FM Gwenfô a luniwyd gan y BBC yn yr 1980au. Er bod rhywfaint o'r manylion sy'n cael eu dangos ar y map yma wedi esblygu ers i'r map gael ei gynhyrchu sy'n cynnwys ychwanegu mwy o fastiau bach, mae'r portread cyffredinol o ardal ddarpariaeth Gwenfô yn dal yn ddilys.

O ran radio ddigidol, gallaf gadarnhau bod holl wasanaethau radio'r BBC ledled y Deyrnas Unedig i gyd yn cael eu cludo ar un rhwydwaith radio ar draws y DU. Rhaid i'r cynnwys a gludir gan bob trosglwyddydd yn y rhwydwaith fod yn union yr un fath er mwyn osgoi ymyriant yn ardaloedd darpariaeth safleoedd trosglwyddyddion eraill. Does dim digon o gapasiti ar amblecs y BBC i gludo cynnwys optio allan sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ar wasanaethau Radio 1 a Radio 2.

Gan obeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Ke: Bakhurst". The signature is written in a cursive style and is positioned above a faint, circular watermark or stamp.

Kevin Bakhurst

Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Cynnwys a'r Cyfryngau